

Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Ogwen 2018

Gweledigaeth

Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen yw creu cymuned a sefydliad cydnerth sy'n gweithredu'n arloesol er budd cymunedau Dyffryn Ogwen.

Mae'n cynllun busnes yn amcanu i wneud hyn trwy:

- Gryfhau seiliau'r sefydliad gan gynyddu'n cymhwysedd staffio i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau o'r ansawdd uchaf
- Gwarchod a chreu ffrydiau incwm newydd
- Atgyfnerthu ein polisiau a gweithdrefnau mewnol i warchod ein staff a gwirfoddolwyr.
- Blaenoriaethu prosiectau sy'n creu budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol gyda ffocws ar drosglwyddo asedau cymunedol, prynu asedau newydd i greu incwm a phrosiectau sy'n gwneud ein cymuned yn fwy gwydn a chydnerth.

Yn treiddio trwy hyn oll mae'r thema cynaladwyedd sy'n greiddiol i'n holl weithgareddau ac yn cwmpasu cynaladwyedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi prif ddatblygiadau'r flwyddyn a aeth heibio.

Staff, Pwyllgor Rheoli ac Aelodau Bwrdd Partneriaeth Ogwen

Staff

Prif Swyddog – Meleri Davies

Clerc a Rheolwr Gweinyddol – Donna Watts

Is Glerc a Swyddog Gweinyddol – Bethan Griffith

Gofalwr Eiddo – Dylan Jones

Swyddog Prosiect Ynni Lleol – Cynan Jones

Swyddog Cynnal – Adam Quaek

Cyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen

Dafydd Meurig

Dafydd Owen

Rheinallt Puw

Cyngor Cymuned Bethesda (Cynrychiolir gan Pearl Evans, Neville Hughes, Mary Jones, Griff Charles Morris a Godfrey Northam)

Cyngor Cymuned Llanllechid (Cynrychiolir gan Geraint Hughes a Kevin Glyn Williams)

Cyngor Cymuned Llandygai (Dafydd Owen a Mair Owen Pierce)

Pwyllgor Rheoli

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddirprwyaeth o Fwrdd llawn Partneriaeth Ogwen ac yn gynrychioladol o'r tri chyngor cymuned lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod bob deufis i fonitro rhaglen waith Partneriaeth Ogwen. Y Pwyllgor Rheoli yw:

Geraint Hughes – Cynghorydd Cymuned Llanllechid

Neville Hughes – Cynghorydd Cymuned Bethesda

Dafydd Meurig – Cadeirydd Partneriaeth Ogwen a Chynghorydd Sir

Griff Charles Morris – Cynghorydd Cymuned Bethesda

Dafydd Owen – Cynghorydd Sir

Mair Pierce – Cynghorydd Cymuned Mynydd Llandygai

Rheinallt Puw – Cynghorydd Sir

Eiddo

Swyddfa Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn berchen ar 26 Stryd Fawr, Bethesda sydd wedi ei rannu i dri llawr. Mae'r llawr uchaf wedi ei rentu gan denantiaid lleol. Mae'r llawr isaf wedi ei rentu gan Heddlu Gogledd Cymru ble mae Swyddogion Heddlu Cymunedol Dyffryn Ogwen yn gweithio.

Mae Llawr 1 yn swyddfa i Brif Swyddog, Clerc a Swyddog Gweinyddol Partneriaeth Ogwen, staff prosiect Partneriaeth Ogwen a swyddfa barhaol i Ynni Cymunedol Cymru a tan yn ddiweddar – Ymgynghoriaeth Sian Shakespear. Mae defnydd o'r ystafell gyfarfod dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys sesiynau un i un efo'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn, sesiynau cwnsela a therapi CBT a gwersi gitâr. Mae Ynni Ogwen, Busnes Cymru, Cyd Ynni, Is-Bwyllgorau Cynghorau Llanllechid a Bethesda ac asiantaethau eraill wedi defnyddio'r ystafell hefyd.

Mae ymweliadau gan y cyhoedd i swyddfa Partneriaeth Ogwen yn parhau i gynyddu gyda nifer yn defnyddio'r safle fel pwynt gwybodaeth cymunedol. Mae'n presenoldeb ar y Stryd Fawr yn gwneud gwahaniaeth o ran rhoi cyfle i'r cyhoedd gael gafaél yn eu Cynghorau lleol.

Siopau, Fflatiau a Stiwdios i denantiaid lleol

Mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i weinyddu 9 uned ar Stryd Fawr Bethesda. Mae 4 o'r rhain yn siopau masnachol ac yn cynnwys:

Cwrw Ogwen – bragdy cymunedol newydd Dyffryn Ogwen

O Law i Law – busnes henebion '*antiques*'

Annie's Orphans – siop elusen yn gwerthu dillad, teganau a llyfrau ail law

Mae'r Caffi Cyfrannu i Rannu yn 57 Stryd Fawr bellach wedi cau a mae'r eiddo ar fin cael ei rentu i denant masnachol newydd.

Rydym hefyd yn llogi 2 stiwdio i gwmnïau creadigol lleol –

9Bach – artistiaid cerddorol sy'n hanu o'r Gerlan

Dyfal Donc – dylunwyr gwaith celf a chreffft cyfoes o Fethesda.

Mae 4 fflat hefyd yn cael eu llogi i denantiaid lleol.

Mae incwm rhent yr eiddo yma yn mynd tuag at gostau rhedeg Partneriaeth Ogwen yn cynnwys penodiad Gofalwr Eiddo i gydlynu gwaith cynnal a chadw.

Clercio

Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth clericio i dri Chyngor Cymuned – Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Cymuned Llandygai a Chyngor Cymuned Llanllechid. Mae'r gwaith clericio yn cynnwys trefnu, paratoi dogfennau a chofnodi yng nghyfarfodydd y Cyngor, delio â gohebiaeth ac ymholiadau gan y cyhoedd a rheoli cyllid ar ran y Cyngorau. Mae'r Clerc yn cynorthwyo gyda gwaith ychwanegol megis cydlynu trefn taliadau pori Pwyllgor Mynydd Llanllechid a threfnu Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn meithrin a datblygu ein Swyddog Gweinyddol i weithredu fel Is-Glerc.

Yn ystod y cyfnod hefyd, mae'r Partneriaeth wedi cyflogi Swyddog Cynnal i wneud gwaith glanhau sbwriel a chynnal a chadw. Mae'r swydd yn cael ei ariannu gan Gyngor Cymuned Llandygai a Bethesda ac yn ymateb uniongyrchol i bryderon y gymuned am sbwriel yn yr ardal.

Prosiectau

Prosiectau Asedau Cymunedol

Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen a Chanolfan Cefnfaes

Mae perchnogaeth gymunedol a throsglwyddiad asedau yn flaenoriaethau strategol i'r Bartneriaeth. Yn ystod y flwyddyn, mae Partneriaeth Ogwen wedi gweithio yn agos gyda Chyngor Gwynedd i drafod trosglwyddiad asedau dau adeilad nodedig yn y pentref, sef Canolfan Cefnfaes a Llyfrgell Bethesda.

Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

Ar ôl cyfnod o negydu a chyd-drafod gyda'r Cyngor Sir a'r cynghorau cymuned, mae'r Bartneriaeth bellach wedi arwyddo prydles 3 mlynedd ar y Llyfrgell. Rydym yn is-osod un ystafell i gwmni'r Family Planning Association ac yn defnyddio'r ystafell gefn fel gofod cymunedol i gynnal digwyddiadau. Ers arwyddo'r brydles, mae 2 arddangosfa gelf wedi eu cynnal ac mae nifer o glybiau lleol wedi defnyddio'r gofod. Mae Cynghorau Cymuned Llanllechid, Llandygai a Bethesda wedi cytuno i gyfrannu tuag at gostau rhedeg yr adeilad er mwyn sicrhau fod y Llyfrgell yn parhau ar agor. Yn ogystal, rydym wedi sicrhau grant o £7,000 gan gronf Datblygu Gwirfoddol Gwynedd tuag at gostau gosod toiled newydd i'r anabl a rhai newidiadau i'r gofod cymunedol.

Canolfan Cefnfaes

Mae Canolfan Cefnfaes yn ganolfan gymunedol yng nghanol y pentref. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cydweithio â Chyngor Gwynedd, Pwyllgor Cefnfaes a chwmni Agoriad ac edrychwn ymlaen i weld y cynlluniau hyn yn dwyn ffrwyth. Mae cyllid wedi ei glustnodi i gyflogi Rheolwr Prosiect i arwain datblygiad y ganolfan trwy gefnogaeth yr hen Bwyllgor Cefnfaes.

Canolfan Gynladwyedd 27 Stryd Fawr

Mae Partneriaeth Ogwen wedi cael grant o £25,000 gan gronfa Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru tuag at bryniant adeilad ar Stryd Fawr Bethesda. Bydd yr adeilad, sydd wedi ei leoli drws nesaf i'n swyddfa bresennol yn cael ei defnyddio fel hyb i weithgarwch amgylcheddol a chynladwyedd y Bartneriaeth. Rydym hefyd wedi sicrhau benthyciad di-log gan Gyngor Gwynedd tuag at weddill costau pryniant ac adnewyddiad yr eiddo a sicrhau grant o £10,000 tuag at gostau adnewyddu'r fflat deulawr uchlaw'r gofod siop o Gronfa Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd.

Maes Parcio Gerlan

Mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn cydweithio â Chyngor Cymuned Bethesda i wireddu'r prosiect yma ond mae'r prosiect wedi ei oedi cryn dipyn gan fod safle'r maes parcio arfaethedig wedi gorfod symud. Mae ymgynghoriaeth Cadarn wedi eu comisiynu i gyflwyno cais caniatad cynllunio i Gyngor Gwynedd ar ran y Cyngor Cymuned a bydd cais benthyciad yn cael ei gyflwyno i'r Public Works Loan Authority.

Siop Ogwen

Siop lyfrau Cymraeg a chrefftau lleol yw Siop Ogwen. Er fod Siop Ogwen yn endid cyfreithiol annibynnol sy'n gweithredu fel cwmni cyfyngedig trwy warant, nid er elw, mae Partneriaeth Ogwen yn parhau i wneud gwaith gweinyddol, rheolaeth cyffredinol a gwaith marchnata ar ran y cwmni. Mae'r gwaith yn cael ei ddarparu fel cytundeb lefel gwasanaeth i Siop Ogwen ar hyn o bryd. Mae'r Siop yn cael ei staffio gyda chyfuniad o wirfoddolwyr a staff cyflogedig.

Mae'r siop yn gwneud cyfraniad tuag at weledigaeth ehangach Partneriaeth Ogwen i adfywio Stryd Fawr Bethesda ac mae'r adborth gan gwsmeriaid ffyddlon a newydd yn gadarnhaol ond mae cynyddu incwm i ateb costau rhedeg yr adeilad a chostau staffio yn her.

Prosiectau Cynladwyedd

Cyd Ynni – Ynni Lleol

Mae Partneriaeth Ogwen yn cael ein cyflogi gan Ynni Cymunedol Cymru fel partner lleol yn natblygiad cynllun Ynni Lleol (Energy Local). Rydym yn cyflogi Swyddog Ynni Lleol un diwrnod yr wythnos i godi ymwybyddiaeth am Ynni Lleol, Effeithlonrwydd Ynni a Chynladwyedd.

Ynni Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i Fwrdd Ynni Ogwen dan gytundeb lefel gwasanaeth. Mae Ynni Ogwen hefyd yn bartner yn natblygiad canolfan gynladwyedd 27 Stryd Fawr a byddwn yn defnyddio'r gofod yma i hyrwyddo gwaith Ynni Ogwen ac addysgu am ynni adnewyddadwy.

Prosiect Cerbyd Cludiant Cymunedol Trydan

Yn dilyn derbyn cwynion gan y cyhoedd a chynghorwyr lleol am broblemau cludiant cymunedol yn Nyffryn Ogwen, trefnodd y Bartneriaeth ddiwrnod arbennig i drafod y mater. Yn rhan o'r drafodaeth yn ystod y dydd oedd Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru, SP Energy Netowrks, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Open Energy Monitor a Swyddogion Cyngor Gwynedd. Yn ogystal a thrafod yr heriau i bobl leol wrth gael mynediad at gludiant cyhoeddus, trafodwyd y problemau parcio i fyny ger Bwthyn Ogwen ac hefyd y potensial sydd yna i ddatblygu cynllun cludiant cymunedol – yn ddelfrydol wedi ei bweru gan drydan lleol adnewyddadwy.

Egin Ogwen

Rydym yn parhau i gynnal rhai digwyddiadau tyfu cymunedol gyda chriw o wirfoddolwyr lleol ond mae ceisiadau grant yn yr arfaeth i ddatblygu'r prosiect yma ymhellach fel rhan o weithgarwch y ganolfan gynladwyedd yn 27 Stryd Fawr.

Prosiectau cymunedol eraill

WiFi Cymunedol

Mae Partneriaeth Ogwen wedi sicrhau cefnogaeth ariannol gan gynllun Gwynedd Ddigidol i ddatblygu cynllun WiFi Cymunedol fydd am ddim i unrhyw ddefnyddwyr ar Stryd Fawr Bethesda.

Mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn llwyddiannus mewn cais grant i Gyngor Gwynedd i ddarparu mynediad WiFi am ddim i Stryd Fawr Bethesda. Bydd y system yn cydymffurfio'n gyfreithiol, yn ddibynadwy ac yn ddiogel gan wasanaethu ymwelwyr a phreswylwyr fel ei gilydd.

Rydym hefyd yn cynllunio gwefan newydd i hyrwyddo Dyffryn Ogwen. Bydd y wefan yma yn hyrwyddo'r ardal, ein busnesau a'r cynnig twristaidd a diwylliannol. Ar y cyd, bydd y system WiFi am ddim, cylchlythyrau twristaidd a gwefan newydd yn cryfhau'r 'cynnig twristaidd lleol' gan helpu busnesau lleol a chymdeithasau i hyrwyddo a marchnata. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo ein pentref, ein busnesau lleol, ein treftadaeth a'n diwylliant. Nid yw grant Cyngor Gwynedd yn darparu ar gyfer yr holl gostau felly rydym yn cydweithio'n agos a Fforwm Busnes y Stryd Fawr i hyrwyddo'r cynllun ymysg busnesau bach a mawr yr ardal i geisio am nawdd i wireddu'r cynllun o fewn y flwyddyn nesaf.

Crwydro Dyffryn Ogwen

Llwyddodd y Partneriaeth i gael grant gan Gronfa Datblygu Gwirfoddol Gwynedd i ddatblygu taflen Crwydro Dyffryn Ogwen sy'n arwain y darlennydd ar hyd llwybrau'r fro. Mae'r daflen wedi ei dosbarthu ymysg busnesau a chanolfannau twristaidd yr ardal.

Gwaith ymgynghorol a Gweithio Mewn Partneriaeth

Mae gan y Partneriaeth aelodau staff sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad helaeth ac rydym yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol i fudiadau eraill yn lleol. Mae gwaith cyfredol yn cynnwys gwaith datblygol i gwmni Tabernacl Bethesda Cyf (Neuadd Ogwen). Rydym hefyd wedi ein cynnwys ar gronfa ddata mentoriaid Atebion Mentrus – Enterprising Solutions sy'n cynorthwyo mentrau cydweithredol ar draws Cymru.

Prosiect y Carneddau a Chais Safle Treftadaeth y Byd Unesco

Mae Partneriaeth Ogwen yn aelod o Fwrdd Rheoli prosiect Partneriaeth y Carneddau. Mae hwn yn brosiect treftadaeth sylweddol ac rydym wedi cynorthwyo gyda datblygiad y cais a chynnal sesiynau ymgysylltu cymunedol yn y Dyffryn. Rydym eisoes wedi meithrin perthynas agos a swyddogion Cyngor Gwynedd sy'n arwain y Cais Safle Treftadaeth y Byd Unesco i'r broydd chwaredol.

Marchnata a Chyhoeddusrwydd

Mae Partneriaeth Ogwen yn cynnal gwefan www.ogwen.org a 3 cyfrif Facebook – Ogwen, Ynni Ogwen a Siop Ogwen ac yn diweddarar tudalennau hyn yn gyson. Mae gennym gyfrifon Trydan @SiopOgwen a @YnniOgwen yn ogystal a mae'r holl gyfrifon hyn yn cael eu dilyn gan dros fil o ddilynwyr. Mae'r holl waith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cael ei wneud gan staff craidd y Bartneriaeth.

Yn ystod y flwyddyn, mae'n gwaith wedi cael sylw ar gyfryngau lleol, cenedlaethol a Phrydeinig.

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn derbyn ceisiadau i siarad gyda chymdeithasau lleol a chenedlaethol am ein prosiectau yn cynnwys digwyddiadau Canolfan Gydweithredol Cymru, Uwch-Gynhadledd Egni Msparc a lansiad maniffestio Building Communities Trust yng Nghaerdydd.